Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch nos **Fawrth 14 Gorffennaf 2020 am 7.00 o'r gloch -**cyfarfod o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-07/20: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams; Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Alice Roberts; Cyng. Robert T Price;

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-07/20 Ymddiheuriadau:

Cyng. Phil Jones;

3-07/20: Datgan diddordeb

4-07/20 Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Mehefin 2020

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-07/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6 07/20: Gohebiaeth

1. **Gohebiaeth COVID-19** wedi ei gylchredeg- **:** llythyr Gweinidog Tai a Llywodraeth Cymru 2 Gorffennaf 2020; llythyr Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd 1 Gorffennaf 2020; e-bost Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau ynglŷn â mesurau COVID-19 Criccieth 2 Gorffennaf 2020; ymateb i holiadur Arloesi Gwynedd Wledig

   Nodwyd bod Cynllun COVID 19 y Cyngor Tref dal yn weithredol - diolchwyd eto i'r Cyng. Nan Davies-Hughes am gyd-gordio. Roedd arwyddion bod y galw amdano yn gostwng wrth i'r cyfnod clo godi. Diolch i'r Cyng. Ffion Gwyn am ei gwaith yn paratoi arwyddion i dynnu sylw ymwelwyr a thrigolion am yr angen i beidio gadael ei gwastraff ar ôl - ac i ddefnyddio'r biniau o gwmpas y dref. Roedd adborth positif iawn wedi bod i'r arwyddion gan drigolion ac ymwelwyr - ond roedd yna broblem wedi codi gan fod y biniau wedi llenwi ac o ganlyniad pobl yn gadael sbwriel ger y biniau . Roedd y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd wythnos diwethaf am finiau ychwanegol i ateb y galw ychwanegol a oedd yn debygol dros y penwythnos yn dilyn llacio cyfyngiadau

teithio a mwy o ymwelwyr i'r dref. Roedd yn dda bod nifer o drigolion y dref wedi bodloni casglu sbwriel dros y penwythnos er mwyn cadw pethau mor daclus â phosib.

Roedd Swyddog Cadw Trefi'n Daclus Gwynedd wedi ymateb i'r cais **: "***O ran casglu, y peth gorau i chi wneud ydi rhoi'r bagiau wrth bin stryd neu mewn man eithaf tawel ar ochr y prom a gadael i ni wybod cyn gynted â phosib gyda manylion lleoliad a llun os yn bosib i: gorfodaethstryd@gwynedd.llyw.cymru. Gallwch hefyd hysbysu'r e-bost yma i adrodd ar finiau gorlawn neu flerwch strydol arall sydd angen sylw. Mae gennym gyflenwad o fagiau glas a chlir (os am ailgylchu) os oes angen bagiau arnoch. Mae'r rhain yn helpu ni i weld mai menter hel sbwriel sydd wedi digwydd a dim achos tipio slei."* Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach am stoc o fagiau glas.

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd hefyd wedi bod yn gosod arwyddion cadw pellter yn y dref.

Gohebiaeth COVID 19 –

- Roedd llythyr Gweinidog Tai a Llywodraeth Cymru (2/7) yn ymestyn gwahoddiad i bobl yng Nghymru i anfon eu meddylion atynt ar sut y dylent gefnogi adferiad ac ailadeiladu ôl-Covid yn y dyfodol yng Nghymru.

  Penderfyniad: Danfon ymateb ateb ar hyd y llinellau a ddanfonwyd i Arloesi Gwynedd Wledig am syniadau ar gyfer y Stryd Fawr. Hefyd cyfeirio at yr angen i sicrhau argaeledd 'broadband' da ar draws Cymru. Roedd yn bwysig hefyd i gefnogi'r system addysg: Ysgolion, Colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion. Byddai'n dda cael mwy o gynlluniau prentisiaethau i bobl ifanc a chyrsiau hyfforddiant i gynorthwyo gydag ail-gyflunio busnesau.

- Llythyr Prif-Weithredwr Cyngor Gwynedd yn holi am farn y Cyngor Tref yn gyffredinol o gofio y bydd fwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal – ac a oes unrhyw beth y dylai Cyngor Gwynedd ystyried ei wneud yn ymarferol (o fewn ei bwerau) fyddai'n help i leddfu unrhyw bryderon lleol am y ffaith y bydd yr economi yn ail agor.

  Penderfyniad: Nodi'r angen am wasanaethau'r Cyngor i sicrhau glendid a thaclusrwydd ac i ddarparu mwy o finiau i helpu gyda hyn.

2. **Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth - 3 Gorffennaf 2020** - derbyniwyd llythyr dilynol ar ran drigolion am y crafu ceir a hanes iddo yn mynd nôl i 2006. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am

fanylion y cynllun gan Gyngor Gwynedd ond yn anffodus heb dderbyn y manylion erbyn y cyfarfod.

Penderfyniad: Ceisio delio gyda'r mater yma drwy ohebiaeth cyn y cyfarfod nesaf yn dilyn derbyn manylion y cynllun gan Gyngor Gwynedd.

7-07/20 Ceisiadau cynllunio

1. **C20/0506/35/DT Cais ar gyfer newidiadau allanol i'r eiddo gan gynnwys codi estyniad unllawr gyda balcony uwchben a darparu ffenestri cromen - Tir Uchaf Lôn Ednyfed, Criccieth Gwynedd, LL52 OLE**

   Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

8-07/20: Archwiliad allanol Cyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20

Nodwyd bod y Ffurflen Flynyddol a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdanynt wedi'u cyflwyno i'r archwilydd allanol.

Penderfyniad: Derbyn er gwybodaeth a diolch i'r Clerc am ei gwaith.

9-07/20: Diweddariad Cyllid 2020/21

Roedd adroddiad ariannol ar y ffurf gyfredol gan y Clerc wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau a drafft o adroddiad newydd ariannol sydd wedi ei baratoi gan y Cyng. Dr Ian Rees.

Roedd yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Mehefin 2020 a'r cysondeb banc am y cyfnod. Nodwyd bod £4,703.45 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £68,760.00 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Nid oedd y sieciau cais cynllunio a thaliad i'r SLCC Mis Mehefin wedi clirio eto. Roedd £43,275.45 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,523.48 yn y cyfrif 'Money Manager'.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyng. Dr Ian Rees am ei amser yn paratoi'r ffurf adroddiad newydd ariannol a oedd i'w groesawu. Cytunwyd i'w dreialu am y misoedd nesaf ynghyd a'r ffurf gyfredol o adrodd.

10-07/20 Cynllun Cymunedol

1. **Prosiect Cymunedol Natur**

   Nodwyd:

   - bod y cais cynllunio am randiroedd cymunedol wedi ei gyflwyno a'i gofrestru gan Gyngor Gwynedd. Roedd llythyr cadarnhad wedi'i gylchredeg.
   - bod cyfarfod cychwynnol o'r is-grŵp i ystyried gwneud cais i gronfa'r Loteri ar gyfer prosiect cymundol nature wedi cymryd lle. Roedd nodyn o'r cyfarfod wedi ei gylchredeg er gwybodaeth. Bydd y cyfarfod

nesaf ar 24 Gorffennaf ac adroddiad pellach i'r Cyngor Tref yng nghyfarfod mis Awst.

- bod arwyddion i'r Ardd Natur a oedd wedi'u paratoi gan y Cyng. Ffion Gwyn mewn cydweithrediad gyda'r Cyng. Nan Davies Hughes, bellach wedi cael eu gosod. Diolchwyd iddynt am ei gwaith. Ariannwyd yr arwyddion gan grant y Cyngor Tref i Ffrindiau Gardd Natur.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad.

2. Map ar gyfer y dref

Roedd y Cyngor Tref Criccieth wedi nodi fel rhan o'i Gynllun Cymunedol fod cynhyrchu Map Tref yn un o'r blaenoriaethau allweddol. Cytunwyd ar hyn gan y Cyngor ym mis Awst 2020.
Roedd Gweithgor yn cynnwys y Cynghorydd Robert Cadwalader, y Cynghorydd Ffion Gwyn, y Clerc a Mr Rich Wilcock a Ms Pam Mayo sy'n cynrychioli Fforwm Busnes Criccieth wedi gweithio dros yr ychydig fisoedd diwethaf i baratoi map cymunedol. Mae'r gwaith celf ragorol gan Ffion Gwyn. Rhaid diolch i aelodau'r grŵp am y gwaith a'r ymdrech enfawr y maent wedi'i wneud i gynhyrchu'r map yn rhad ac am ddim i'r Cyngor Tref. Cymerodd y gwaith celf ar gyfer y map oddeutu 150 awr i'w baratoi ac mae llawer o waith wedi mynd i mewn i'r wybodaeth pwyntiau hanes, y gwaith camera ac i'w gael yn barod ar ffurf pdf i'w argraffu.

Mae gan y map dwyieithog dair 'taith gerdded' i annog twristiaid a phobl leol fel ei gilydd i grwydro o amgylch y dref. Bydd hyn o fudd i siopau, caffis a bwytai. Mae'n fap manwl gyda lleoliadau o'r holl adeiladau hanesyddol, gosodiadau celf, arddangosfeydd blodau, parcio a thoiledau. Mae gan bob adeilad hanesyddol esboniad byr o'i hanes ar gefn y map a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Criccieth.

Ystyriwyd dau gynnig:

1. Fel blaenoriaeth, cynhyrchu mapiau wedi'u plygu maint A3 i'w gwneud ar gael yn rhwydd gan fusnesau yn y dref. Gan nad oes hysbysebu ar y map ac na fydd y lleoliadau'n newid, gellir cynhyrchu nifer uchel o'r mapiau i dorri costau. Roedd yn gryn amser ers cynhyrchu map o'r dref ac mae bellach yn amser gwych i fuddsoddi yn nyfodol Criccieth o ystyried y pandemig, ac annog pobl i ymweld â'r dref a fydd yn rhoi hwb i'r economi. Bydd y map a'r teithiau cerdded hefyd o ddiddordeb ac at ddefnydd trigolion lleol. Yn ychwanegol at y mapiau wedi'u plygu A3, cynigir y dylid rhoi copïau A4 wedi'u lamineiddio mewn man amlwg mewn siopau dethol i hysbysu ymwelwyr bod copi o'r map ar gael ar gais - mae hyn oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ynglŷn â darparu deunyddiau printiedig yn gyhoeddus.

Penderfyniad: Gwasg Cymru i argraffu 5,000 o gopïau i ddechrau ac argraffu 40 copi o gopïau A4 wedi'u lamineiddio. Bydd y map yn cael ei argraffu gan ddefnyddio inciau wedi'u seilio ar lysiau a phlatiau argraffu di-gemegion, ar bapur cynaliadwy carbon niwtral.

2. Maes o law i osod mapiau A1 wedi'u lamineiddio ar fyrddau mewn gwahanol leoliadau o amgylch y dref. Roedd lleoliadau posib wedi eu cylchredeg. Byddai angen caniatâd Cyngor Gwynedd ar gyfer hyn. Roedd prisiau amcangyfrif yn cael eu casglu a chynnig wedi'i gostio yn dod gerbron y Cyngor maes o law.

Penderfyniad: cytuno mewn egwyddor yn amodol ar gynllun wedi'i gostio yn cael ei gytuno gan y Cyngor Tref mewn cyfarfod yn y dyfodol a hefyd cymeradwyaeth Cyngor Gwynedd.

Diolchwyd yn fawr iawn i'r gweithgor am ei gwaith. Bydd y map yn gaffaeliad mawr i'r dref.

3. Bwrdd Gwybodaeth ar gyfer Murlun Siopau Stryd Fawr

Nodwyd bod y murlun o Siopau Criccieth a oedd yn rhan o brosiect Strydoedd Unigryw 2019 bellach wedi'i osod yn ei le ar y Blue China. Roedd ymateb bositif iawn iddo. Bu'r Cyng. Nan Davies Hughes a'r Cyng. Ffion Gwyn yn gweithio gyda Mr Paul Montague to i gwblhau a gosod y murlun yn ei le.

Bu darllediad amdano ar raglen Heno, S4C ac erthygl yn y Cambrian News. Bydd darn amdano hefyd yn y Ffynnon mis Gorffennaf. Nodwyd hefyd bod y Clerc wedi paratoi erthygl i "The Clerk Magazine" cenedlaethol yr SLCC mis Medi sy'n canolbwyntio ar feysydd gwyrdd trefol/pentrefi. Bydd yr erthygl yn son am brosiect Strydoedd Unigryw ar thema "Welsh Incident" Robert Graves a'r cerflun newydd ar y Maes, Criccieth.

Roedd yna gostau i'w talu am osod y murlun ac y byddai anfoneb yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Tref. Roedd hefyd angen costio bwrdd gwybodaeth amdano.

Penderfyniad : Derbyn yr adroddiad a diolch yn fawr iawn i'r Cyng. Nan Davies Hughes, Cyng. Ffion Gwyn a Mr Paul Montague am ei gwaith.

11-07/20: Safle We Newydd i'r Cyngor Tref

Nodwyd bod yr Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol wedi cytuno i apwyntio cwmni Delwedd i gynllunio a chynnal safle We newydd i'r Cyngor Tref sydd angen bod yn hyfyw erbyn 23 Medi 2020. Nodwyd hefyd bod y Clerc wedi mynychu cwrs hyfforddiant yr SLCC ar baratoi deunydd hygyrch a bod rhaglen a chofnodion y Cyngor Tref bellach yn cael eu paratoi ar ffurf i adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad. Diolch yn fawr iawn i'r gweithgor sef y Cyng. Robert Cadwalader, y Cyng. Dr. Ian Rees, Rich Wilcock (Fforwm Busnes Criccieth) a'r Clerc am y gwaith manwl a fu'n rhan o'r broses o ystyried y cynigion gan dri chwmni ac sydd wedi arwain at y cwmni dewis.

12-07/20: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11

1 Derbyniwyd adroddiad gan Warden Llwybr yr Arfordir drwy law'r Cyng. Eirwyn Williams waith llwybrau'r arfordir:

- Barbio wedi ei gwblhau ger Ynysgain.
- Atgyweiriwyd y giât ger y Dryll erbyn hyn, sydd i'w weld yn agor a chau yn iawn.
- Bydd y 'Boardwalk' rhwng Ynysgain ac Aberkin yn cael ei hatgyweirio/sylw wythnos hon.
- Bydd yr ail doriad ger Dylan's, y Dryll a Cefn Castell yn digwydd mor fuan â phosib - a'r llwybr ymlaen at yr Ogof ddu yn hwyrach yn ystod yr wythnos nesaf.

2 Llwybr 11 – y Clerc i ysgrifennu eto at Swyddog Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad.

13-07/20: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Nodwyd yr angen i drwsio'r carnau concrit sydd yn mynd lawr at y môr o flaen Marine Terrace ac Abereistedd

Penderfyniad: I ysgrifennu at Swyddog Cyngor Gwynedd yn nodi'r consyrn ac i holi am amserlen cwblhau'r gwaith.

14-07/20: Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

15-07/20: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Y Cadeirydd i wirio'r gwaith ar dorri'r gwrych Llwybr 1.

16-07/20: Parcio yng Nghriccieth

Nodwyd bod neges o anfodlonrwydd am y camper vans a oedd yn parcio ar y Prom dros nos. Roedd y mater wedi'i adrodd i'r heddlu. Codwyd nifer o bwyntiau ynglyn a pharcio ac y dylid monitro'r sefyllfa ac adrodd unrhyw gonsyrn drwy e-bost i'r heddlu.

17-07/20: Torri Coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

18-07/20 Meinciau Tref Criccieth

Y Cadeirydd i gasglu rhestr o'r meinciau sydd angen trwsio.

19-07/20 Derbyniadau

Ad-daliad TAW 2019/20 wedi'i dderbyn £4,631.94

20-07/20: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE) £9.80 (siec 101411)
- Cyflog Clerc (Mehefin) £779.95 (siec 101412)
- Costau Clerc (Swyddfa) £325.36 (siec 101413)

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.07 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **Nos Fawrth 10 Awst 2020**.

Bydd y rhaglen yn cau 2 **Awst 2020**

Dr Catrin Jones
Clerc